OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2591

# Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

## RHAN 2

### Ychwanegion, cyflasynnau ac ensymau bwyd

**Trosedd torri gofynion yr UE ynghylch ychwanegion bwyd**

**3.** Mae unrhyw berson sy'n torri unrhyw rai o ddarpariaethau Rheoliad 1333/2008 a bennir yng ngholofn gyntaf Tabl 1 o Atodlen 1, fel y'i darllenir gyda mesurau trosiannol a geir yn y Rheoliad hwnnw neu sydd i'w darllen gydag ef, neu sy'n defnyddio neu'n gosod ar y farchnad gynnyrch sy'n methu cydymffurfio ag unrhyw rai o'r darpariaethau hynny, yn cyflawni trosedd.